# YSGOL BRO TEIFI

## PECYN GWYBODAETH



## ATHRO MATHEMATEG



### RHAN AMSER 0.8 - PARHAOL O IONAWR 2027

### CYFLOG – PRIF RADDFA CYFLOG

# HYSBYSEB SWYDD

**Annwyl ddarpar ymgeisydd,**

Diolch am fynegi diddordeb mewn gweithio yn ein hysgol. Rydym yn awyddus i benodi addysgwr blaengar a chydwybodol i ymuno a'n cyfadran Fathemateg fel **Athro Mathemateg** ar gytundeb parhaol. Croesewir ceisiadau wrth unigolion sy'n dymuno gweithio ar delerau rhan amser (0.8 neu 4 diwrnod yr wythnos). Rydym yn awyddus iawn i glywed wrth athrawon profiadol neu newydd gymhwyso i ymuno gyda'n tîm ymroddgar o athrawon.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- **Addysgu gwersi Mathemateg ar draws yr ystod oed uwchradd gyda'r cyfle i addysgu yn y 6ed i ymgeisydd addas.**
- **Angerddol dros eu pwnc ac at ddysgu**
- **Yn barod i wneud yn siŵr fod disgyblion yn derbyn profiadau dysgu cyffrous, hwylus a gwerthfawr er mwyn cyflawni 4 diben y cwricwlwm.**
- **Addysgwr rhagorol**
- **Ymroddedig i sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd eu potensial.**

O weithio yn ein hysgol, cewch fynediad at yr adnoddau dysgu modern, diweddaraf wedi eu darparu mewn ystafelloedd dysgu pwrpasol.  I gefnogi lles ein staff, mae'r ysgol hefyd yn darparu mynediad rhad ac am ddim i ystafell ffitrwydd yr ysgol o 7.30 y bore hyd at 21.00 yr hwyr i aelodau staff.

Os hoffech wybodaeth pellach am y swydd neu os hoffech drefnu ymweliad i'r safle, mae yna groeso i chi gysylltu gyda mi am sgwrs ar unrhyw adeg drwy ffonio'r ysgol ar 01559 362503 neu drwy e-bostio EvansG304@broteifi.ceredigion.sch.uk.

Diolch o galon ac edrychaf ymlaen i glywed wrthoch yn fuan,

G Evans

**Gareth Evans,**
Pennaeth Ysgol Bro Teifi

# YSGOL BRO TEIFI




Mae Ysgol Bro Teifi yn ysgol gydol oed naturiol Gymreig ar gyfer disgyblion 3–19 oed, sydd wedi'i lleoli ychydig y tu allan i dref Llandysul yn ne-ddwyrain Ceredigion. Rydym yn gwasanaethu ardal wledig hardd a chymunedol, tua 45 munud o ddiwedd yr M4, tua 30 munud o Gaerfyrddin a thua 50 munud o Aberystwyth.

Mae'r Gymraeg yn greiddiol i'n hunaniaeth gyda bron i 64% o'n dysgwyr yn defnyddio'r iaith yn y cartref ac rydym yn falch iawn o rôl allweddol yr ysgol wrth gynnal a datblygu'r iaith yn ein cymuned.



Agorwyd ein hysgol ym Medi 2016 yn dilyn buddsoddiad o tua £30 miliwn gan Gyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru. Fel yr ysgol pob-oed cyfrwng Cymraeg bwrpasol gyntaf yng Nghymru, rydym yn cynnig continwwm addysgol di-dor sy'n galluogi ein disgyblion i ddatblygu'n hyderus o'r blynyddoedd cynnar hyd at y chweched dosbarth. Yn ôl gwerthusiadau diweddar gan Estyn, rydym wedi llwyddo i greu cymuned ddysgu gefnogol sy'n rhoi pwyslais cryf ar les, cynnydd a datblygiad pob unigolyn.

Rydym yn ffodus o feddu ar gyfleusterau modern o'r radd flaenaf sy'n cefnogi addysgu ac arloesi ar draws pob cyfnod allweddol. Ers agor, mae ein hysgol wedi tyfu'n gyson, ac ar hyn o bryd mae tua 850 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys tua 85 yn y chweched dosbarth. Mae'r berthynas agos rhwng staff, disgyblion a'r gymuned yn sail i'n llwyddiant, gan greu awyrgylch cynnes, cynhwysol a chefnogol i bawb.

I'r rhai sy'n ystyried ymuno â ni fel aelod o staff, rydym yn cynnig cyfle unigryw i weithio mewn ysgol flaengar lle mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru wrth wraidd pob agwedd o fywyd yr ysgol. Rydym yn ymfalchïo yn ein diwylliant cydweithredol ac yn ymrwymedig i gefnogi datblygiad proffesiynol ein staff, gan sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i ffynnu a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau ein disgyblion a'n cymuned.

Dysgwch mwy am ein ysgol drwy edrych ar ein gwefan [www.ysgolbroteifi.cymru](www.ysgolbroteifi.cymru)

# YMGEISIO

Gwneir ceisiadau drwy wefan gyrfaoedd Cyngor Sir Ceredigion
[Gwefan Gyrfaoedd]

**DYDDIAD CAU**
**Medi 30ain 2026**

↓

**RHESTR FER**
**Hydref 1af 2026**

↓

**CYFWELIAD**
**Hydref 8fed 2026**


# DIOGELU AC AMDDIFFYN PLANT

Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant, pobl ifanc a'r rhai sydd mewn perygl i sicrhau eu bod mor ddiogel ag y gallant fod. Rydym yn cydnabod bod gan blant, pobl ifanc a'r rhai sydd mewn perygl hawl i gael eu a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'u lles. Disgwylir i bob aelod o staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn, a bydd angen Gwiriad Gwell gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), CRB gynt.

# EIN PRIF FLAENORIAETHAU GWELLA 2026 -2027

Parhau i ddatblygu addysgu ac asesu o ansawdd uchel a chyson er mwyn sicrhau cynnydd a safonau uchel i bob dysgwr





Parhau i ddatblygu cwricwlwm cynhwysol a chydlynol sy'n cefnogi datblygiad a dilyniant mewn medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd ddigidol ein dysgwyr.

Cryfhau lefelau presenoldeb disgyblion drwy barhau i ymgysylltu â dysgwyr, rhieni a gofalwyr.





Meithrin diwylliant o berthnasoedd cryf, ymddygiad cadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn sy'n hyrwyddo lles a chymhelliant ein holl ddisgyblion.

Cryfhau ymhellach ein gweithdrefnau hunanwerthuso er mwyn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd.



# EIN GWERTHOEDD CRAIDD

## PARCH

## UCHELGAIS

## CAREDIGRWYDD

## CYMREICTOD

## TEGWCH

## GWYDNWCH

# DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD** | Athro Mathemateg |
| **LLEOLIAD** | Ysgol Bro Teifi |
| **ORIAU GWAITH** | Rhan Amser 0.8 |
| **MATH O GONTRACT** | Parhaol |
| **CYFLOG** | Prif Raddfa Cyflog |
| **RHEOLWR LLINELL** | Pennaeth y Gyfadran Fathemateg |

## DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Cyfrannu at weledigaeth yr ysgol drwy ddarparu addysgu o ansawdd uchel sy'n cefnogi cynnydd pob dysgwr, yn unol â Cwricwlwm i Gymru, y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (Cymru), a pholisïau'r ysgol ar asesu, cynnydd, lles a diogelu.

| | |
|---|---|
| **ADDYSGU** | • Cynllunio, addysgu a gwerthuso gwersi o ansawdd uchel sy'n sicrhau cynnydd ystyrlon i bob dysgwr.<br>• Defnyddio egwyddorion Cwricwlwm i Gymru (dibenion, pedwar diben, profiadau dysgu a sgiliau trawsgwricwlaidd) i lywio addysgu.<br>• Creu amgylchedd dysgu cynhwysol, Cymreig ei naws, diogel ac ysgogol.<br>• Addasu dulliau addysgu i ddiwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ADY.<br>• Defnyddio ystod o strategaethau addysgu effeithiol, gan gynnwys dysgu gweithredol, cydweithredol a digidol. |

| | |
|---|---|
| **CWRICWLWM** | • Datblygu a gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.<br>• Sicrhau bod cynllunio yn adlewyrchu'r pedwar diben ac yn cefnogi cynnydd parhaus.<br>• Integreiddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm.<br>• Cydweithio i ddatblygu profiadau dysgu trawsgwricwlaidd ac ystyrlon.<br>• Sicrhau bod y cwricwlwm yn ymatebol i anghenion lleol, diwylliannol a chenedlaethol Cymru. |
| **ASESU** | • Gweithredu dulliau asesu ffurfiannol sy'n cefnogi dysgu parhaus a chynnydd.<br>• Cofnodi, deall a chefnogi cynnydd dysgwyr dros amser.<br>• Defnyddio tystiolaeth asesu i lywio cynllunio addysgu a chefnogi camau nesaf dysgwyr.<br>• Darparu adborth clir, adeiladol ac amserol sy'n hyrwyddo cynnydd.<br>• Cyfrannu at brosesau adrodd i rieni/ gofalwyr a systemau asesu mewnol yr ysgol.<br>• Monitro a gwerthuso cynnydd dysgwyr yn unol â pholisïau asesu ysgol a chanllawiau Cwricwlwm i Gymru. |
| **DATBLYGIAD PROFFESIYNOL** | • Ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (Cymru).<br>• Cymryd rhan mewn myfyrio beirniadol ar arfer addysgu i wella effaith ar ddysgwyr.<br>• Cydweithio â chydweithwyr i rannu arfer effeithiol a datblygu addysgu ar y cyd.<br>• Cymryd rhan mewn prosesau gwerthuso, arsylwi ac ymchwil weithredol ysgol.<br>• Cadw'n gyfredol â datblygiadau cenedlaethol mewn addysg yng Nghymru, yn enwedig Cwricwlwm i Gymru ac asesu cynnydd. |

| | |
|---|---|
| **BUGEILIOL** | • Cefnogi lles emosiynol, cymdeithasol ac addysgol pob dysgwr.<br>• Gweithredu fel tiwtor dosbarth/mentor lle bo’n berthnasol.<br>• Hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol a diwylliant o barch, cynhwysiant a lles.<br>• Monitro presenoldeb, ymddygiad a chynnydd disgyblion yn ofalus.<br>• Cydweithio â rhieni/gwarcheidwaid ac asiantaethau allanol i gefnogi dysgwyr.<br>• Sicrhau bod diogelu yn flaenoriaeth ym mhob agwedd o waith. |
| **CYFFREDINOL** | • Cydymffurfio â pholisïau’r ysgol, deddfwriaeth addysg Cymru a chanllawiau statudol.<br>• Hyrwyddo a diogelu lles plant yn unol â gweithdrefnau diogelu.<br>• Cymryd rhan mewn cyfarfodydd staff, hyfforddiant a gweithgareddau ysgol.<br>• Cyfrannu at ddatblygiad ehangach yr ysgol a’i chymuned.<br>• Cyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill fel y’u pennir gan y Pennaeth |







# MANYLEB PERSON

| NODWEDD | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CYMWYSTERAU | • Statws Athro Cymwysedig neu gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig.<br>• Gradd Mathemateg neu gyfatebol<br>• Tystiolaeth o gymhwyster i addysgu yng Nghymru. | • Gradd uwch neu gymhwyster pellach mewn maes arbenigol.<br>• Hyfforddiant neu gymhwyster ychwanegol mewn addysgu neu addysg. |
| GWYBODAETH A SGILIAU | • Dealltwriaeth gadarn o Cwricwlwm i Gymru a'i egwyddorion.<br>• Gallu i gynllunio a chyflwyno addysgu o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion amrywiol dysgwyr.<br>• Sgiliau rheoli dosbarth effeithiol sy'n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.<br>• Dealltwriaeth o asesu ffurfiannol a chynnydd dysgwyr.<br>• Sgiliau cyfathrebu cryf, yn ysgrifenedig ac ar lafar.<br>• Gallu i ddefnyddio TGCh i gefnogi dysgu ac addysgu.<br>• Gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | • Dealltwriaeth o ddatblygiadau diweddar mewn addysgeg ac addysgu pwnc arbenigol.<br>• Gwybodaeth am strategaethau dysgu cynhwysol ac ADY.<br>• Profiad o ddefnyddio dulliau asesu arloesol i gefnogi cynnydd dysgwyr. |

# MANYLEB PERSON

| NODWEDD | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| PROFIAD | • Profiad o addysgu yn y sector uwchradd.<br>• Profiad o gynllunio a chyflwyno gwersi effeithiol sy'n hyrwyddo cynnydd dysgwyr.<br>• Profiad o asesu dysgu a defnyddio data i wella canlyniadau. | • Profiad o addysgu hyd at Lefel Uwch (e.e. Safon Uwch / TGAU uwch).<br>• Profiad o weithio mewn amgylchedd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.<br>• Profiad o gyfrannu at ddatblygiad cwricwlwm neu adnoddau addysgu. |
| HYFFORDDIANT | • Ymrwymiad i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).<br>• Hyfforddiant Diogelu / Amddiffyn Plant (gellir cwblhau'r rhain ar ddechrau'r cytundeb) | • Profiad o gyfrannu at gymunedau dysgu proffesiynol (CDP/PLCs).<br>• Parodrwydd i ymgymryd â rolau cyfrifoldeb ychwanegol yn yr ysgol.<br>• Diddordeb mewn ymchwil addysgol neu addysgeg pwnc-benodol. |
| NODWEDDION PERSONOL | • Ymrwymiad cryf i les, diogelwch a llwyddiant pob dysgwr.<br>• Agwedd gadarnhaol, brwdfrydig ac ysgogol tuag at addysgu a dysgu.<br>• Sgìl cydweithio effeithiol fel rhan o dîm proffesiynol.<br>• Hyblygrwydd ac addasrwydd i ymateb i anghenion ysgol sy'n newid. | • Arweinyddiaeth naturiol a'r gallu i gymell eraill.<br>• Brwdfrydedd dros gyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol.<br>• Agwedd arloesol tuag at addysgu a datblygu cwricwlwm.<br>• Diddordeb mewn cefnogi mentrau ysgol neu weithgareddau allgyrsiol. |

# MANYLEB PERSON

| SGILIAU IEITHYDDOL | GWRANDO / SIARAD | DARLLEN | YSGRIFENNU |
|---|---|---|---|
| CYMRAEG (FFRAMWAITH ALTE) | 5<br>Hanfodol | 5<br>Hanfodol | 5<br>Hanfodol |
| SAESNEG (FFRAMWAITH ALTE) | 5<br>Hanfodol | 5<br>Hanfodol | 5<br>Hanfodol |

